HYSBYSIAD GWNEUD GORCHYMYN

DEDDF PRIFFYRDD 1980

CYNGOR BRO MORGANNWG

(LLWYBR TROED CYHOEDDUS Rhif 13 SAINT ANDRAS)
GORCHYMYN DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS 2021

Bydd y Gorchymyn uchod, a wnaed ar 15 Mawrth 2021, o dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980, yn dargyfeirio'r llwybr troed cyhoeddus sy'n rhedeg o bwynt ar y dramwyfa i Fferm Southra NGR 314928 170796 yn mynd tua'r de ar draws tir i'r gorllewin o'r ffermdy cyn troi tua'r gorllewin i derfynu yn NGR 314793 170711, i linell sy'n rhedeg o bwynt ar y dreif i Fferm Southra NGR 314928 170796 yn mynd tua'r gorllewin ac yna tua'r de ar draws cae agored i ddod i ben yn NGR 314793 170711 fel y dangosir ar fap y Gorchymyn.

Mae copi o'r Gorchymyn a map y Gorchymyn wedi eu gosod a gellir eu gweld am ddim yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, Bro Morgannwg CF63 4RU. Gellir prynu copïau o'r Gorchymyn a map y Gorchymyn am £4.50.

Gellir anfon unrhyw sylwadau am neu wrthwynebiadau i'r Gorchymyn yn ysgrifenedig at y Pennaeth Adfywio a Chynllunio, Swyddfa'r Dociau, Heol Yr Isffordd, Y Barri, Bro Morgannwg, CF63 4RT nid hwyrach na 20 Mai 2021. Nodwch ar ba seiliau rydych yn eu gwneud.

Os na ddaw unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau i law, neu os cânt eu tynnu'n ôl, caiff Cyngor Bro Morgannwg gadarnhau'r Gorchymyn fel un nas gwrthwynebir. Os anfonir y Gorchymyn i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, caiff unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau na chawsant eu tynnu'n ôl eu hanfon gyda'r Gorchymyn.

Dyddiedig 22 Ebrill 2021

NOTICE OF MAKING OF AN ORDER

HIGHWAYS ACT 1980

THE VALE OF GLAMORGAN COUNCIL

(PUBLIC FOOTPATH Nº 13 ST ANDREW'S MAJOR)
PUBLIC PATH DIVERSION ORDER 2021

The above Order, made on the 15th March 2021, under Section 119 of the Highways Act 1980, will divert the public footpath running from a point on the driveway to Southra Farm NGR 314928 170796 proceeding southwards across land to the west of the farmhouse before turning westwards to terminate at NGR 314793 170711, to a line running from a point on the driveway to Southra Farm NGR 314928 170796 proceeding westwards then southwards across an open field to terminate at NGR 314793 170711 as shown on the Order map.

A copy of the Order and the Order map have been placed and may be seen free of charge at the Civic Offices, Holton Road, Barry, Vale of Glamorgan CF63 4RU. Copies of the Order and map may be bought at the price of £4.50.

Any representations about or objections to the Order may be sent in writing to the Head of Regeneration and Planning, The Docks Office, Subway Road, Barry, Vale of Glamorgan CF63 4RT not later than the 20th May 2021. Please state the grounds on which they are made.

If no such representations or objections are duly made, or if any so made are withdrawn, the Vale of Glamorgan Council may confirm the Order as an unopposed order. If the Order is sent to the Welsh Ministers for confirmation any representations and objections which have not been withdrawn will be sent with the Order.

Dated this 22nd April 2021